Neuadd y Ddinas Caerdydd,
Ffordd Gerddi'r Orsedd, Caerdydd CF10 3ND

Cardiff City Hall,
Gorsedd Gardens Rd, Cardiff CF10 3ND



# Sioeau teithiol ymchwil gofal cymdeithasol
# Social care research roadshows

#STYGCCaerdydd | #SCRRCardiff

Sioeau teithiol ymchwil gofal cymdeithasol
Social care research roadshows

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

# Croeso

## Helo a chroeso i sioeau teithiol ymchwil gofal cymdeithasol!

Dyma'r tro cyntaf i ni gynnal y digwyddiadau hyn, felly gobeithio y byddwch yn eu gweld yn ddefnyddiol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae gweld tystiolaeth yn cael ei hymgorffori i arferion gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi bod yn uchelgais gennym, ond gwyddom y gall hyn fod yn heriol am nifer o resymau.

Canfu ein hymchwil i sut mae'r gweithlu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn deall ac yn defnyddio tystiolaeth rai rhwystrau cyffredin, gan gynnwys diffyg amser, cyllid a mynediad at adnoddau, yn ogystal â phrinder sgiliau a hyder i ddod o hyd i dystiolaeth a'i defnyddio.

Amlygodd y gwaith ymchwil hwnnw hefyd bwysigrwydd meithrin cydberthnasau rhwng ymchwilwyr ac ymarferwyr, a bu'r canfyddiadau hyn o gymorth i ni ddeall yn well sut y gallwn gefnogi gweithwyr i roi tystiolaeth ar waith.

Fel rhan o'n gwaith yn y maes hwn, rydyn ni wedi ymuno ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i drefnu'r sioeau teithiol hyn, sy'n rhad ac am ddim.

Rydyn ni am ddangos yr effaith gadarnhaol y gall ymchwil ei chael ar arferion, yn ogystal â thynnu sylw at rywfaint o'r dystiolaeth sydd ar gael a rhoi'r cyfle i chi greu cysylltiadau ag ymchwilwyr.

Byddwch yn clywed gan arbenigwyr o bob rhan o Gymru a thu hwnt ar ystod o bynciau ymchwil ym maes gofal cymdeithasol. Mae llawer o'r pynciau wedi'u dewis gennym yn seiliedig ar ein gwaith diweddar i nodi blaenoriaethau ymchwil.

Cewch gyfle i siarad am y pynciau yn fwy manwl gyda'r ymchwilwyr eu hunain, a chydag ymarferwyr eraill.

Yn yr oes hon o gyfarfodydd rhithwir, mae'n braf gallu dod at ein gilydd wyneb yn wyneb fel hyn. Gobeithio y byddwch yn mwynhau eich diwrnod ac yn mynd adref wedi magu mwy o hyder i ddefnyddio tystiolaeth yn eich gwaith o ddydd i ddydd.

Diolch am ymuno â ni.

**Sue Evans**
Prif Weithredwr, Gofal Cymdeithasol Cymru

# Croeso

Diolch am gymryd yr amser i fod gyda ni heddiw yn sioe deithiol ymchwil gofal cymdeithasol 2023. Mae tîm Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'n cydweithwyr yn Gofal Cymdeithasol Cymru'n hyderus y gallwch ddisgwyl diwrnod ysbrydolgar llawn dysgu, rhannu a rhwydweithio gyda chydweithwyr ar draws gofal cymdeithasol Cymru.

Bydd y sioeau teithiol yn rhoi cyfle i'r gymuned gofal cymdeithasol ddysgu, ond bydd hefyd yn arddangos yr ymchwil ddiweddaraf yn y sector gofal cymdeithasol, gan dynnu sylw at effaith a gwerth ymchwil er arfer, gan ganolbwyntio'n benodol ar flaenoriaethau ymchwil a nodir.

Gyda lansiad diweddar ein cynllun tair blynedd, 'Pwysigrwydd Ymchwil: Ein cynllun ar gyfer gwella ymchwil iechyd a gofal Cymru yn 2022-2025', mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ymrwymo i gefnogi ymchwil gofal cymdeithasol. Drwy ein Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, sy'n cynnwys gofal iechyd a chymdeithasol, rydym yn datblygu gweithlu ymchwil cryf ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn cau'r bwlch rhwng ymchwil gofal cymdeithasol a gofal iechyd, rydym hefyd yn cefnogi amrywiaeth o raglenni gan gynnwys ENRICH Cymru a CASCADE. Wrth ariannu canolfan ymchwil gofal cymdeithasol newydd i oedolion gyda Phrifysgol Caerdydd, rydym hefyd yn rhoi cyfleoedd i ganolbwyntio ar gapasiti arweinyddiaeth ymchwil uwch.

Gyda'n gilydd, gallwn godi proffil ymchwil gofal cymdeithasol, archwilio posibiliadau newydd a chymryd rhan mewn prosiectau cyffrous newydd. Rwy'n gobeithio y byddwch yn elwa ar y diwrnod, ac y gallwch fynd â'r hyn rydych yn ei ddysgu heddiw yn ôl i'ch timau a'ch sefydliadau er mwyn ein helpu i wella canlyniadau i bobl Cymru.

**Kieran Walshe**
Cyfarwyddwr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

# Amdanom ni

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

## Gofal Cymdeithasol Cymru

Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae ein rôl reoleiddio yn golygu ein bod yn cofrestru ymarferwyr, yn gosod safonau ymarfer ac yn sicrhau bod gweithwyr yn addas i weithio, tra'n datblygu'r gweithlu i sicrhau bod yr wybodaeth a'r sgiliau ganddynt i ddiogelu, grymuso a chefnogi'r rhai y mae angen cymorth arnynt.

Rydyn ni'n gosod blaenoriaethau ar gyfer ymchwil i gael tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda ac yn rhannu arferion da gyda'r gweithlu fel y gall ddarparu'r ymateb gorau.

Mae ein gwaith hefyd yn golygu ein bod yn cefnogi arloesedd yn y sector ac yn casglu data sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol, yn ogystal â gweithio gydag eraill i wella gwasanaethau ar gyfer meysydd y cytunwyd arnynt fel blaenoriaeth genedlaethol.

Rydyn ni'n cael ein hariannu gan Lywodraeth Cymru.

# Amdanom ni

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

## Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Sefydliad rhwydwaith yw Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru, sy'n uno amrywiaeth eang o bartneriaid ar draws y GIG yng Nghymru, awdurdodau lleol, prifysgolion, sefydliadau ymchwil, y trydydd sector ac eraill.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth agos ag asiantaethau eraill y llywodraeth ac arianwyr ymchwil (yng Nghymru ac ar draws y DU), partneriaid y diwydiant, cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill.

Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i hyrwyddo ymchwil i glefydau, triniaethau, gwasanaethau a chanlyniadau sy'n gallu arwain at ddarganfyddiadau ac arloeseddau sy'n gallu gwella a hyd yn oed achub bywydau pobl. Am ragor o wybodaeth, ewch i: ymchwiliechydagofalcymru.org

# Gair gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru



## Heléna Herklots CBE
## Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Pleser o'r mwyaf yw cael cadeirio'r sioe deithiol hon, gan weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i dynnu sylw at y ffyrdd y gall ymchwil a thystiolaeth wella polisi ac arferion a sicrhau canlyniadau gwell i bobl hŷn.

Bydd y digwyddiad yn arddangos peth o'r gwaith ymchwil diweddaraf, a'r ffyrdd y gall yr ymchwil hwnnw lywio arferion. Bydd hefyd yn gyfle i ddod ag ymarferwyr ac ymchwilwyr ynghyd, gan ddarparu cyfleoedd i rannu gwybodaeth a syniadau, yn ogystal â gwneud cysylltiadau newydd.

Rwy'n edrych ymlaen at archwilio'r ffyrdd y gallwn weithio gyda'n gilydd i ymgorffori arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i feysydd allweddol, er mwyn helpu i sicrhau bod yr wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen gennym i ddarparu gofal a chymorth o'r safon uchaf i bobl hŷn.

# Gwybodaeth am y diwrnod

## Cofrestru

Bydd cofrestru a rhwydweithio'n dechrau o 9.30am. Bydd y brif raglen a sesiynau siaradwyr yn dechrau o 10am, yna'n cael eu rhannu'n ddwy sesiwn baralel. Caiff cinio ei weini yn Neuadd Ferrier am 1pm, yna sesiynau paralel yn y prynhawn a sylwadau i gau gan y cyflwynydd yn Ystafell Syndicâd D am 3.20pm. Rydyn ni'n gobeithio i'r gyfres o ddigwyddiadau hon fod yn ddi-bapur, felly rydyn ni'n eich annog i lawrlwytho'r llyfryn hwn yn hytrach na'i argraffu. Ni fydd unrhyw gopïau papur ar gael ar y dydd.

**Gellir cael mynediad i WiFi yn Neuadd y Ddinas drwy'r rhwydwaith cyhoeddus. Nid oes angen unrhyw gyfrinair.**

## Cyfieithu ar y pryd

Gall darnau o'r rhaglen sioe deithiol gael eu cyflwyno yn Gymraeg. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael drwy'r setiau pen ar eich seddi yn Ystafell y Consortiwm D i'r rheiny y mae angen y gwasanaeth arnynt.

Fel rhan o brif raglen y sioe deithiol, gall cwestiynau gael eu gofyn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os na all ymatebwyr siarad Cymraeg, rhoddir eu hatebion yn Saesneg.

## Bwrsariaethau teithio

Er bod y sioeau teithiol ymchwil gofal cymdeithasol yn rhad ac am ddim, rydyn ni'n deall y gall rhai pobl brofi anawsterau ariannol yn sicrhau modd teithio i'r digwyddiad ac oddi yno.

Mae yna fwrsariaethau ar gael i helpu gyda hyn, felly cysylltwch â thîm y sioe deithiol os oes angen cymorth arnoch.

# Rhaglen

| SESIWN Y BORE - YSTAFELL SYNDICÂD D | |
|---|---|
| 09.30 ymlaen | **Cofrestru'n agor**<br>Eich cyfle i gynllunio eich diwrnod a rhwydweithio |
| 10.00 | **Croeso i'r sioe deithiol ymchwil gofal cymdeithasol hon**<br>Heléna Herklots CBE, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br>Lisa Trigg, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Ymchwil, Data ac Arloesi, Gofal Cymdeithasol Cymru |
| 10.15 | **O weithred i effaith? Trosolwg o'r gwerthusiad cenedlaethol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**<br>Mark Llewellyn, Prifysgol De Cymru<br>Fiona Verity, Prifysgol Abertawe |
| 10.35 | EGWYL |

# Rhaglen

| | SESIWN BARALEL UN | |
|---|---|---|
| | **1** Cefnogaeth i ofalwyr di-dâl | **2** Gofalu am yr unigolyn hŷn yn gyflawn |
| 10.45 | Gwneud seibiannau byr, personol yn rhai ystyrlon: Ymchwil i gysylltu academia, polisi ac arferion<br>Diane Seddon, Prifysgol Bangor | Agendor yn hytrach na bwlch? Trawsnewid yr ymateb i ddioddefwyr hŷn sydd wedi goroesi cam-drin domestig<br>Sarah Wydall, Prifysgol Aberystwyth |
| | Adnodd ar-lein ar gyfer hunanofal a dysgu: iSupport i ofalwyr dementia<br>Gill Windle, Prifysgol Bangor | Nid yw mwy bob amser yn well: Cefnogaeth grwpiau cymunedol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia<br>Rebecca Oatley, Prifysgol Caerdydd |
| | Gofalwyr di-dâl du ac ethnig lleiafrifol a'u systemau cymorth<br>Wahida Kent, Prifysgol Abertawe | Ymholwyr Dementia: Pobl â dementia ar flaen y gad o ran ymchwil<br>Teresa Davies, Prifysgol Abertawe |
| 11.45 | EGWYL GOFFI A RHWYDWEITHIO | |

**12.00** SESIWN HOLI AC ATEB GYDAG YMCHWILWYR A MYFYRIO DROS DRAFODAETHAU'R BORE

| YSTAFELL A | YSTAFELL B | YSTAFELL C | YSTAFELL D |
|---|---|---|---|
| Wahida Kent | Teresa Davies | Gill Windle, Diane Seddon | Rebecca Oatley, Sarah Wydall |

**13.00** CINIO A RHWYDWEITHIO | NEUADD FERRIER

# Rhaglen

| SESIWN Y PRYNHAWN | | |
|---|---|---|
| SESIWN BARALEL DAU | | |
| | **1** Gwaith cymdeithasol gyda phobl hŷn yn ei gyd-destun | **2** Technoleg mewn gwaith gofal cymdeithasol i oedolion |
| 13.45 | Gwaith cymdeithasol mewn ysbytai: Cynnal gwerthoedd yn wyneb biwrocratiaeth<br>Daniel Burrows, Prifysgol Caerdydd | Y defnydd o dechnoleg i fynd i'r afael ag unigrwydd ymhlith pobl hŷn yn ystod pandemig COVID-19<br>Julie Barnett, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru |
| | Ymatebion ym maes gofal cymdeithasol i hunan-esgeulustod a chelcio ymhlith pobl hŷn: Beth sy'n gweithio'n ymarferol?<br>Nicole Steils, Coleg y Brenin Llundain | Defnyddio technoleg glyfar i rymuso pobl i fyw bywydau hapusach a mwy annibynnol<br>Georgina Powell, Prifysgol Caerdydd |

14.30 **SESIWN HOLI AC ATEB GYD FODAETHAU'R PRYNHAWN**

| YSTAFELL A | YSTAFELL B | YSTAFELL C | YSTAFELL D |
|---|---|---|---|
| Nicole Steils | Georgina Powell | Dan Burrows | Julie Barnett |

15.15 **SYLWADAU I GLOI**

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Yr Athro Julie Barnett**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

## ‘Y defnydd o dechnoleg i fynd i’r afael ag unigrwydd ymhlith pobl hŷn yn ystod pandemig COVID-19’

Mae Julie yn ddirprwy is-ganghellor cyswllt (ymchwil), yn athro mewn seicoleg iechyd ac yn rhan o’r rhan o’r Healthy Later Living Network ym Mhrifysgol. ym Mhrifysgol Caerfaddon. Mae Julie yn wyddonydd cymdeithasol, ac mae ei diddordebau ymchwil ac arbenigedd yn ymwneud â gwerthfawrogi risg a chyfathrebu risg, rôl y digidol yn y gwaith o wella cysylltiad cymdeithasol, rhagnodi cymdeithasol a gor-sensitifrwydd bwyd. Mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn datblygu dulliau ymchwil arloesol.

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae wedi arwain a chydweithio ar brosiectau rhyng-ddisgyblaethol, wedi’u hariannu gan gynghorau ymchwil y DU, cyrff ariannu Ewropeaidd, elusennau, ac adrannau ac asiantaethau llywodraeth y DU.

### Crynodeb cyflwyniad

Bydd Julie yn cyflwyno canlyniadau astudiaeth a gomisiynwyd gan Brifysgol Caerfaddon gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae’r ymchwil a’r canfyddiadau yn edrych ar y gwahanol ffyrdd y defnyddiwyd technoleg i fynd i’r afael ag unigrwydd ymhlith pobl hŷn yn ystod pandemig COVID-19.

Nodir y rhwystrau, y galluogwyr, y manteision a’r heriau er mwyn deall ar gyfer pwy ac o dan ba amgylchiadau y mae dulliau a alluogir gan dechnoleg yn effeithiol i fynd i’r afael ag unigrwydd, cyn amlygu’r hyn a ddysgwyd ar gyfer polisi ac arferion yn y dyfodol.

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Dr Daniel Burrows**
Prifysgol Caerdydd

## ‘Gwaith cymdeithasol mewn ysbytai: Cynnal gwerthoedd yn wyneb biwrocratiaeth’

Wedi gweithio fel gweithiwr cymdeithasol cymwys am saith mlynedd, trodd Daniel at addysg uwch yn 2014, ac ymunodd ag Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2018, lle mae bellach yn uwch-ddarlithydd mewn gwaith cymdeithasol.

Cwblhaodd Daniel ei ddoethuriaeth broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol yn 2018, a oedd yn seiliedig ar astudiaeth ethnograffig o dîm gwaith cymdeithasol mewn ysbyty. Y gwaith hwn oedd y sail i'w lyfr cyntaf, Critical Hospital Social Work Practice, a gyhoeddwyd gan Routledge yn 2020. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys gwaith cymdeithasol gyda phobl hŷn, gofalwyr di-dâl, arferion sy'n seiliedig ar hawliau a chynllunio gofal.

## Crynodeb cyflwyniad

Gall ysbytai fod yn amgylcheddau heriol unigryw i arferion gofal cymdeithasol oherwydd pwysau o bob math.

Mae'r papur hwn yn tynnu ar astudiaeth ethnograffig i dîm gwaith cymdeithasol mewn ysbyty er mwyn archwilio gwerthoedd gweithwyr cymdeithasol sy'n ymwneud â'r gwaith o gynllunio pan fydd pobl hŷn yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Rhoddir sylw arbennig i bryder parhaus gweithwyr cymdeithasol am hawliau unigolion a'u teuluoedd, y maent yn eu hyrwyddo trwy eiriolaeth. Weithiau mae gweithwyr cymdeithasol mewn ysbytai yn eirioli ar ran cleifion er mwyn cymryd risg gadarnhaol, ac ar adegau eraill, maent yn darparu eiriolaeth i sicrhau y caiff achosion rhyddhau a allai fod yn anniogel eu hosgoi. Mae'r rôl yn golygu y bydd y gweithwyr cymdeithasol yn archwilio ac yn mynd i'r afael â deinameg teuluol rhwng cleifion a'u hanwyliaid ac yn helpu unigolion a theuluoedd i gael mynediad at adnoddau.

Dadleuir bod gweithwyr cymdeithasol mewn ysbytai yn gallu gwneud gwaith a gaiff ei adnabod fel gwaith cymdeithasol, gan ei fod yn ymwneud â hyrwyddo hawliau dynol, cyfiawnder cymdeithasol a grymuso, er gwaethaf yr heriau sy'n gynhenid i'r rôl. Ni ddylid diystyru nac anwybyddu'r gwahaniaeth gwirioneddol y gall gweithwyr cymdeithasol mewn ysbytai ei wneud i fywydau unigolion, na chyfraniad gweithwyr cymdeithasol sy'n arddangos gwerthoedd y maes gwaith cymdeithasol mewn ysbytai.

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Teresa 'Dory' Davies**
Prifysgol Abertawe

**'Ymholwyr Dementia: Pobl â dementia ar flaen y gad gydag ymchwil'**

Garddwraig tirwedd yw Dory, sydd bellach wedi ymddeol, a chafodd ddiagnosis o glefyd Alzheimer ddeg mlynedd yn ôl pan oedd yn 59 mlwydd oed. Mae'n byw yng Ngogledd Cymru ac yn rhedeg grŵp DEEP (Datblygu Arferion wedi'u Cyfoethogi gan Dystiolaeth) ar gyfer pobl â dementia o'r enw Likeminded.

Mae hi hefyd yn Ddyddiadurwraig Dementia weithgar. Mae Dementia Diaries, a gaiff ei redeg gan Innovations in Dementia, yn brosiect a gynhelir ledled y DU sy'n dod â phrofiadau amrywiol pobl o fyw gyda dementia ynghyd ar ffurf cyfres o ddyddiaduron sain, gyda'r nod o ysgogi deialog a newid agweddau.

## Crynodeb cyflwyniad

Nod y prosiect hwn, a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2018 a mis Chwefror 2023, oedd datblygu dull newydd o ymchwilio, neu 'ymholi', a gaiff ei arwain a'i reoli gan y bobl â dementia eu hunain.

Mae Innovations in Dementia wedi cefnogi pobl â dementia i archwilio sut y caiff gwybodaeth ei chaffael a'i chymhwyso mewn modd sy'n teimlo'n berthnasol i'w bywydau eu hunain. Mae pobl â dementia wedi bod yn rhan o'r gwaith o nodi blaenoriaethau ymchwil a, gyda chymorth grantiau bychain, wedi cynllunio a chynnal eu hymchwil eu hunain.

Dory yw un o'r 'Arloeswyr' sydd wedi siapio'r rhaglen gyfan. Yn y cyflwyniad hwn, bydd yn siarad am yr hyn y mae'r gwaith hwn wedi'i olygu iddi. Bydd ffilm fer hefyd yn arddangos lleisiau eraill a gyfrannodd at y prosiect.

[Cliciwch yma i wylio'r fideo ar sianel YouTube y Cwmni Buddiannau Cymunedol Innovations in Dementia](#).

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Dr Wahida Kent**
Prifysgol Abertawe

**'Gofalwyr di-dâl du ac ethnig lleiafrifol a'u systemau cymorth'**

Cymhwysodd Wahida fel gweithiwr cymdeithasol yn 1999. Mae ei phrofiad ymarferol wedi canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi plant a theuluoedd yng Nghymru. Yn ystod ei 13 mlynedd ddiwethaf o ymarfer, bu'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc anabl, a phlant a phobl ifanc â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol. Mae wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau addysgu ac ymchwil ers 2014, ac wedi addysgu ym maes gwaith cymdeithasol ers 2018.

Roedd ymchwil doethuriaeth Wahida, a gwblhaodd ym Mhrifysgol Caerdydd, yn canolbwyntio ar ofalwyr di-dâl du ac ethnig lleiafrifol i blant a phobl ifanc â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd. Yn ddiweddar, bu'n gweithio fel rhan o dîm a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu canllawiau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gyda rhieni ag anableddau dysgu sy'n mynd drwy'r broses Amlinelliad o Gyfraith Gyhoeddus.

Ar hyn o bryd, mae'n uwch-ddarlithydd ym Mhrifysgol Abertawe yn yr adran gwaith cymdeithasol, yn addysgu'r rhaglenni gwaith cymdeithasol BSc ac MSc.

## Crynodeb cyflwyniad

Ychydig a wyddys am brofiadau gofalwyr di-dâl du a lleiafrifoedd ethnig, eu mynediad at gymorth ffurfiol ac anffurfiol a'r nifer sy'n manteisio arno, a'r rhwystrau y gallent eu hwynebu. Nod yr astudiaeth hon oedd pontio'r bwlch hwn trwy gyfweld â gofalwyr di-dâl a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i weld a oes amrywiaeth ethnig o ran eu hanghenion a'u profiadau.Bydd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar y gwrthgyferbyniad rhwng credoau blaenorol ynghylch argaeledd cefnogaeth deuluol a chymunedol ar gyfer y grŵp hwn o deuluoedd, a hanesion y teuluoedd eu hunain. Heriodd y canfyddiadau rywfaint o'r drafodaeth academaidd ac adborth anecdotaidd gan weithwyr proffesiynol ynghylch mynediad i gymorth anffurfiol ac argaeledd cymorth anffurfiol i ofalwyr du a lleiafrifoedd ethnig.

Siaradodd gweithwyr proffesiynol am eu diffyg hyder wrth fynd i'r afael ag anghenion crefyddol a diwylliannol a chysylltwyd hyn â diffyg hyfforddiant yn y meysydd allweddol hyn. Mae angen ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, un sy'n osgoi rhagdybiaethau a stereoteipiau hiliol.

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Yr Athro Mark Llewellyn**
Prifysgol De Cymru



**Yr Athro Fiona Verity**
Prifysgol Abertawe

## ‘O weithred i effaith? Trosolwg o’r gwerthusiad cenedlaethol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014’

Mark yw cyfarwyddwr Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC). Mae hefyd yn athro polisi iechyd a gofal ym Mhrifysgol De Cymru. Ers 2008, mae wedi cynnal dros 100 o astudiaethau ymchwil arbenigol ac adolygiadau gwerthusol yn WIHSC ac wedi ennill profiad sylweddol o reoli a chyflwyno astudiaethau cymhleth a sensitif, ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn benodol, ac ar draws y sector cyhoeddus yn y DU. Mae wedi datblygu arbenigedd mewn ymchwil gymhwysol a methodoleg gwerthuso ac mae ei waith yn canolbwyntio ar ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn ac annibynnol i holl waith WIHSC.

Mae Fiona yn athro gwaith cymdeithasol ym Mhrifysgol Abertawe. Mae ganddi gefndir ymarferol mewn datblygiad cymunedol yn Awstralia ac mae wedi gweithio mewn rolau datblygu a rheoli cymunedol o fewn llywodraeth leol, iechyd cymunedol a’r sector anllywodraethol. Fel academydd, mae wedi addysgu ac ymchwilio ym meysydd polisi cymdeithasol, datblygiad cymunedol a chynllunio cymdeithasol. Roedd yn aelod o’r tîm a gynhaliodd y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac arweiniodd y gwaith ar atal.

### Crynodeb cyflwyniad

Cynhaliwyd gwerthusiad cenedlaethol annibynnol o’r Ddeddf – astudiaeth IMPACT – rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Hydref 2022. Bydd y cyflwyniad hwn yn rhoi trosolwg o gydrannau allweddol yr astudiaeth a chanfyddiadau tîm yr astudiaeth. Bydd yn disgrifio nad yw’r daith tuag at wireddu nod uchelgeisiol y Ddeddf yn gyflawn, a bydd yn cynnig cyfres o fewnwelediadau i’r cwestiynau a’r heriau allweddol sy’n wynebu’r sector yng Nghymru, sy’n deillio o’r sylfaen dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y tîm ymchwil.

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Dr Rebecca Oatley**
Prifysgol Caerdydd

## Nid yw mwy bob amser yn well: Cefnogaeth grwpiau cymunedol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia

Mae Rebecca yn ymchwilydd ac yn ddarlithydd ar y rhaglen gymhwyso MA (dwy flynedd) mewn gwaith cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd. Cyn hynny, bu'n gweithio fel gweithiwr cymdeithasol cymwysedig ar draws gwasanaethau statudol a'r trydydd sector i oedolion hŷn a phobl sy'n byw gyda dementia yng Nghymru a Lloegr.

Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys gwaith cymdeithasol gydag oedolion hŷn, amrywiaeth, rhywedd, profiad byw o ddementia, ymyriadau cymorth ôl-ddiagnostig yn y gymuned a throsi ymchwil yn arfer. Mae'n angerddol dros roi llais i bobl sy'n byw gyda dementia a gofalwyr teulu mewn ymchwil ac addysg.

### Crynodeb cyflwyniad

Bydd y cyflwyniad hwn yn tynnu ar ymchwil ethnograffig i grwpiau gweithgaredd hel atgofion am chwaraeon ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. Bydd yn trafod manteision a heriau ehangach cefnogaeth grŵp, ac yn ystyried yr hyn y gellir ei ddysgu o ran arferion (y tu hwnt i weithgareddau hel atgofion am chwaraeon) o gymorth grŵp yn y gymuned i bobl a theuluoedd a gaiff eu heffeithio gan ddementia. Mae pobl sy'n byw gyda dementia a'u partneriaid gofal anffurfiol yn fwy tebygol o brofi unigrwydd ac allgáu cymdeithasol na'u cyfoedion. Mae hel atgofion am chwaraeon mewn grŵp yn enghraifft o gefnogaeth grŵp yn y gymuned, ac awgrymir bod hyn yn dod yn fwyfwy poblogaidd. Credir ei fod yn bleserus, mae'n hyrwyddo ymgysylltiad cymdeithasol, yn cefnogi hunaniaeth unigol a hunaniaeth a rennir, yn darparu cyfleoedd rôl yn ôl rhywedd ac yn cynnig cyfle i arddangos effaith ac arbenigedd.

Bydd y cyflwyniad hwn yn tynnu ar ymchwil a wnaed i bedwar grŵp hel atgofion am chwaraeon a gaiff eu cynnal gan glybiau chwaraeon proffesiynol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, yn ogystal â chyfweliadau ansoddol â saith o fenywod sydd wedi'u heffeithio gan ddementia. Trafodir y canlyniadau, a bydd y cyflwyniad yn ystyried pwy sy'n elwa ar ddulliau grŵp penodol.

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Dr Georgina Powell**
Prifysgol Caerdydd

**'Defnyddio technoleg glyfar i rymuso pobl i fyw  bywydau hapusach a mwy annibynnol'**

Mae Georgie yn ddarlithydd yn yr ysgol seicoleg ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ganddi ddiddordeb yn y defnydd o dechnoleg (yn enwedig technoleg glyfar) mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Fel rhan o'i chymrodoriaeth i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae'n astudio'r defnydd o seinyddion clyfar a chartrefi clyfar gan bobl ag anabledd dysgu a phobl hŷn sy'n byw mewn tai cymdeithasol.

Mae'n archwilio p'un a allai'r technolegau hyn rymuso pobl i fyw'n fwy annibynnol a gwella llesiant, unigrwydd a chynhwysiant digidol. Mae Georgie yn gweithio gyda sefydliadau gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n arwain ym maes arloesi digidol, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Innovate a'r Gymdeithas Tai Newydd.

## Crynodeb cyflwyniad

Gall technoleg glyfar a reolir gan lais, fel seinyddion clyfar, gynnig ffordd fwy hygyrch o ymgysylltu â'r rhyngrwyd na dyfeisiau traddodiadol megis ffonau clyfar a thabledi. Gall defnyddwyr hefyd reoli agweddau o'u hamgylchedd gartref, megis troi offer trydanol ymlaen a'u diffodd, cael mynediad at adloniant a gosod nodiadau atgoffa. Bydd y cyflwyniad hwn yn ymdrin ag ymchwil diweddar a wnaed i sut y gellid defnyddio seinyddion clyfar (a mathau eraill o dechnoleg glyfar) mewn lleoliadau gofal cymdeithasol i helpu pobl i fyw bywydau hapusach a mwy annibynnol.

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Dr Diane Seddon**
Prifysgol Bangor

## ‘Gwneud seibiannau byr, personol yn rhai ystyrlon: Ymchwil i gysylltu academia, polisi ac arferion’

Mae Diane yn ddarllenydd mewn gofal cymdeithasol yng Nghanolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia, Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd, Prifysgol Bangor.

Mae wedi arwain rhaglen ymchwil gofal cymdeithasol, gan ddenu grantiau sydd werth cyfanswm o oddeutu £10.5 miliwn. Gydag enw da sefydledig am gwblhau ymchwil effeithiol sy’n berthnasol i bolisi, mae wedi cynghori ar ddatblygiad polisïau cenedlaethol (cynghorydd arbenigol, Pwyllgor Dethol Materion Cymreig) ac wedi arwain adolygiadau o weithrediad polisi cenedlaethol, gan gynnwys Strategaeth Gofalwyr Cymru (ar gyfer Llywodraeth Cymru) a Strategaeth Gofalwyr ar gyfer Lloegr (ar gyfer yr Adran Iechyd). Mae’n aelod o Grŵp Cynghori’r Gweinidog ar Ofalwyr (Llywodraeth Cymru) a phwyllgor llywio’r Building Respite Evidence and Knowledge (BREAK) Exchange rhyngwladol.

### Crynodeb cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd seibiannau byr i ofalwyr di-dâl, a elwir yn draddodiadol yn ofal seibiant, ac mae cefnogi bywyd rhywun ochr yn ochr â gofalu yn un o bedair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr di-dâl yng Nghymru.

Mae’r cyflwyniad hwn yn disgrifio gweithgarwch ymchwil a datblygiad arferion i arloesi seibiannau byr i ofalwyr di-dâl a’r bobl y maent yn eu cefnogi. Mae’n adrodd ar ganfyddiadau adolygiad o’r sylfaen dystiolaeth ryngwladol, yn ogystal â gwaith cydweithredol, Cymru gyfan a ddatblygodd egwyddorion allweddol ar gyfer opsiynau seibiant byr ar gyfer y dyfodol a meysydd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi a datblygu arferion.

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Dr Nicole Steils**
Coleg y Brenin Llundain

## ‘Ymatebion ym maes gofal cymdeithasol i hunan-esgeulustod a/ neu chelcio ymhlith pobl hŷn yn Lloegr’

Mae Nicole yn gymrawd ymchwil yn Uned Ymchwil Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol NIHR yng Ngholeg y Brenin Llundain. Arweiniodd astudiaeth a ariannwyd gan Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol yr NIHR o ymatebion i hunan-esgeulustod a chelcio ymhlith pobl hŷn yn Lloegr. Mae bellach yn rhan o dîm sy’n ymchwilio i’r posibilrwydd o ddefnyddio gwasanaethau proffesiynol glanhau annibendod mewn achosion o gelcio.

Cyn dod yn ymchwilydd, bu Nicole yn gweithio ym maes addysg y tu allan i’r ysgol a gwaith cymdeithasol yn Frankfurt, yr Almaen. Mae gan Nicole ddiddordeb hefyd yn y defnydd o dechnolegau, mewn cwnsela/mentora, polisi cymdeithasol, hunaniaeth bersonol/hunaniaethau personol, a dod â theori ac arferion ynghyd.

### Crynodeb cyflwyniad

Mae’r cyflwyniad hwn yn adrodd ar ganfyddiadau astudiaeth a ariannwyd gan Ysgol Gofal Cymdeithasol NIHR sy’n archwilio’r cwestiwn, ‘beth sy’n gweithio’n ymarferol?’, gyda’r nod o wella darpariaeth gwasanaeth a’r ymateb i hunan-esgeuluso a/neu chelcio ymhlith pobl hŷn.

Mae Deddf Gofal Lloegr 2014 yn cydnabod bod hunan-esgeuluso, gan gynnwys celcio, yn bryder diogelu posibl. Mae pobl hŷn yn aml yn amharod i gydnabod unrhyw risgiau cysylltiedig ac yn gwrthod derbyn triniaeth, gwasanaethau neu gymorth. Defnyddiodd yr astudiaeth hon ddull cymysg a oedd yn cynnwys adolygiadau o lenyddiaeth a dogfennau, a chyfweliadau ag arweinwyr ac ymarferwyr diogelu oedolion mewn 31 o ardaloedd yn Lloegr.

Mae’r canfyddiadau’n canolbwyntio ar atgyfeirio ac asesiadau, dealltwriaeth ymarferwyr, rôl galluedd meddyliol, argaeledd triniaeth a gwasanaethau, a gwaith aml-asiantaeth. Gwneir argymhellion i wella polisi ac arferion.



Sioeau teithiol ymchwil gofal cymdeithasol
Social care research roadshows
Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales
Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Yr Athro Gill Windle**
Prifysgol Bangor

## 'Adnodd ar-lein ar gyfer hunanofal a dysgu: iSupport ar gyfer gofalwyr dementia'

Gerontolegydd yw Gill gyda chefndir mewn seicoleg, ac mae'n arbenigo mewn ymchwil rhyngddisgyblaethol. Hi yw cyfarwyddwr Canolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia Cymru, cyfarwyddwr effaith ymchwil Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd Prifysgol Bangor, ac arweinydd Canolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia Cymru ym Mangor. Nod ymchwil Gill yw gwella iechyd, llesiant a gwytnwch pobl hŷn, pobl â dementia a'u cefnogwyr, a gwella gofal a darpariaeth gwasanaethau.

### Crynodeb cyflwyniad

Mae canllawiau'r GIG yn argymell bod gofalwyr anffurfiol pobl sy'n byw gyda dementia, megis teulu a ffrindiau, yn cael cynnig hyfforddiant i'w helpu i ddatblygu sgiliau gofal ac i reoli eu hiechyd corfforol a meddyliol eu hunain. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn argymell y dylai gofalwyr dementia gael mynediad at dechnolegau ar-lein sy'n fforddiadwy, yn brofedig ac sydd wedi'u cynllunio'n dda i dderbyn addysg, hyfforddiant sgiliau a chymorth.

Mewn ymateb i'r argymhellion hyn, mae'r astudiaeth gyntaf yn y DU i fanteision rhaglen hyfforddiant a chymorth ar-lein yn cael ei chynnal ar hyn o bryd. Datblygwyd y rhaglen gan Sefydliad Iechyd y Byd ac fe'i gelwir yn 'iSupport'. Mae wedi'i chynllunio ar gyfer gofalwyr dementia i'w helpu i ddarparu gofal da ac i ofalu am eu hunain. Mae'r cyflwyniad hwn yn rhoi trosolwg o'r ymchwil a'r cynnydd hyd yma.

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Dr Sarah Wydall**
Prifysgol Aberystwyth

## 'Agendor yn hytrach na bwlch? Trawsnewid yr ymateb i ddioddefwyr hŷn sydd wedi goroesi camdriniaeth ddomestig'

Mae Sarah yn ddarllenydd mewn troseddeg, yn gyfarwyddwr y Ganolfan ar gyfer Oedran, Rhywedd a Chyfiawnder Cymdeithasol ac yn brif ymchwilydd i'r fenter Dewis Choice 2015-2023 ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yn 2022, dyfarnwyd Gwobr Is-ganghellor i Sarah am effaith eithriadol y tu hwnt i academia. Mae Sarah hefyd wedi derbyn gwobr Crwsibl Cymru am arweinyddiaeth ymchwil, ac yn 2016, enillodd Wobr Goffa Audrey Jones am Ysgoloriaeth Ffeministaidd. Mae cyhoeddiadau Sarah yn canolbwyntio'n bennaf ar niwed ar sail rhywedd.

### Crynodeb cyflwyniad

Mae Dewis Choice yn wasanaeth a gynhyrchir ar y cyd sy'n darparu cymorth dwys, hirdymor i ddioddefwyr hŷn sydd wedi goroesi cam-drin domestig. Mae'n cyfuno ymchwil hydredol mewn modd unigryw, gan gofnodi 'profiadau ceisio cymorth byw' dioddefwyr hŷn sydd wedi goroesi camdriniaeth; a darparu llwyfan i bobl hŷn siarad am 'rym gwirionedd' eu profiadau o geisio cyfiawnder. Mae defnyddwyr gwasanaeth yn defnyddio eu lleisiau i greu adnoddau ar y cyd i drawsnewid yr ymateb i gam-drin domestig pan yn hŷn.

Bydd y cyflwyniad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r ymchwil hyd yma ac yn dangos sut mae deddfwriaeth, polisi ac arferion wedi arwain at ddiffygion yn hytrach na bwlch yn y cymorth priodol sydd ar gael i ddioddefwyr hŷn. Bydd yn dangos sut y caiff tlodi gwasanaeth ei brofi'n aml gan y rhai ag anghenion cymhleth, yn enwedig wrth ddefnyddio'r ystod o amddiffyniadau cam-drin domestig sydd ar gael i gadw pobl hŷn yn ddiogel rhag niwed a'u cefnogi'n effeithiol, fel y gallant wneud dewisiadau gwybodus.

# Partneriaid ac arddangoswyr

## ADSS Cymru

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru yw llais arweinyddiaeth broffesiynol a strategol gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn cynrychioli barn gyfunol adrannau gwasanaethau cymdeithasol pob un o'r 22 awdurdod lleol ledled Cymru, ac yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'n cymunedau drwy lywio a dylanwadu ar ddeddfwriaeth, polisïau ac arferion yn y sector gofal cymdeithasol.

**adss.cymru**

## Canopi

Mae Canopi yn darparu cymorth iechyd meddwl cyfrinachol rhad ac am ddim i staff gofal cymdeithasol a'r GIG yng Nghymru. Ein nod yn benodol yw cefnogi pobl sy'n teimlo na allant gael mynediad at gymorth gan eu gwasanaethau cyflogwyr. Rydym yn cynnig lefelau amrywiol o gymorth, gan gynnwys hunangymorth, cymorth cymheiriaid, hunangymorth o dan arweiniad, a therapi gydag arbenigwyr achrededig.

**canopi.nhs.wales/cy/hafan**

## CADR

Y Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia (CADR)

Nod CADR yw gwella bywydau pobl hŷn trwy ymchwil, polisi ac arferion. Mae CADR wedi'i leoli ym mhrifysgolion Abertawe, Bangor ac Aberystwyth, gan sicrhau bod ymchwil i heneiddio'n cael ei gynnal ledled Cymru. Mae CADR yn ymchwilio i sawl disgyblaeth megis:

- amgylcheddau heneiddio
- nodweddu dementia a gwybyddiaeth wrth heneiddio
- cynhwysiant cymdeithasol ar gyfer iechyd a llesiant pobl hŷn
- dulliau ymchwil, ymgysylltiad a chynnwys cyhoeddus a phroffesiynol.

Ariennir CADR gan Ymchwil Iechyd a Cymru a Llywodraeth Cymru, ac mae'n sefydliad rhithwir cenedlaethol, amlochrog sy'n cynnwys nifer o wahanol elfennau. Mae'n integreiddio gweithgaredd amlddisgyblaethol ac yn datblygu meysydd arbenigedd, o fiolegol, seico-gymdeithasol ac amgylcheddol, i bolisi cymdeithasol ar heneiddio a dementia.

**cadr.cymru/cy**

# Partneriaid ac arddangoswyr

## Gofalwyr Cymru

Mae Gofalwyr Cymru yn rhan o Carers UK - yr unig elusen aelodaeth genedlaethol yn y DU ar gyfer gofalwyr di-dâl. Wedi'i sefydlu bron i 60 mlynedd yn ôl, ein cenhadaeth yw gwneud bywyd yn well i ofalwyr. Rydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth.

**carerswales.org**

## ENRICH Cymru

Rhwydwaith o gartrefi gofal ledled Cymru sy'n barod ar gyfer ymchwil yw ENRICH Cymru, a'r nod yw cefnogi'r gwaith o ddarparu a datblygu ymchwil mewn cartrefi gofal. Mae hyn yn cynnwys cefnogi staff cartrefi gofal, preswylwyr, a theuluoedd preswyl i gymryd rhan mewn gwaith ymchwil a sut y gall hynny gyfrannu at arferion. Rydym hefyd yn cefnogi ymchwilwyr i gynnal ymchwil i gartrefi gofal.

**enrich.nihr.ac.uk**

## ExChange

Mae ExChange Wales yn dod ag ymchwilwyr, ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth blaenllaw ynghyd i rannu arbenigedd, tystiolaeth ymchwil a phrofiadau gofal.

**exchangewales.org**

## Technoleg Iechyd Cymru

Sefydlwyd Technoleg Iechyd Cymru (HTW) gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu canllawiau cenedlaethol ar ddefnyddio technolegau iechyd nad ydynt yn feddyginiaethau yng Nghymru. Ariennir Technoleg Iechyd Cymru gan Lywodraeth Cymru ac fe'i llywyddir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, ond mae'n annibynnol o'r ddau.

Gan weithio gyda phartneriaid ar draws y sectorau iechyd a gofal, mae eu tîm amlddisgyblaethol yn cynnal asesiadau technoleg iechyd o dechnolegau iechyd neu ofal nad ydynt yn feddyginiaeth ac yn cyhoeddi canllawiau cenedlaethol ar eu defnydd yng Nghymru.

**healthtechnology.wales**

# Partneriaid ac arddangoswyr

## E-lyfrgell GIG Cymru

Mae e-Lyfrgell GIG Cymru yn gartref i ffynhonnell fwyaf GIG Cymru o dystiolaeth a gwybodaeth ddigidol gan gynnwys e-gyfnodolion, e-lyfrau, cronfeydd data, crynodebau tystiolaeth, gwybodaeth am feddyginiaethau, canllawiau, e-ddysgu a mwy.

O fis Ionawr 2023, gall gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru bellach gael mynediad at at adnoddau i gefnogi eu hymarfer..

Trwy'r cydweithrediad hwn, mae'r casgliadau e-Lyfrgell wedi tyfu gydag ychwanegu deunydd pwnc gofal cymdeithasol newydd, gan gynnwys cronfeydd data, e-lyfrau ac e-gyfnodolion.

Mae'r e-Lyfrgell ar gael yn hawdd trwy gyfrif hunangofrestru ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol, sydd bellach yn gallu mewngofnodi gan ddefnyddio eu hoff ddyfais, gartref, yn y gwaith, neu ble bynnag a phryd bynnag y mae angen.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan yr e-lyfrgell neu cysylltwch â thîm yr e-lyfrgell: elibrary@wales.nhs.uk

**eli.gig.cymru**